

## Mae'n wanwyn ... ond mae'r gaeaf yn dod

Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn ymateb i ddatganiad y Canghellor yn ei gyllideb ar gyfer y gwanwyn, a'r cynnydd mewn pris ynni a ddaeth i rym ar Ebrill 1af, gan gloriannu effaith hynny ar aelwydydd tlotaf ein gwlad, a sut gall yr eglwys ymateb i'r pwysau cynyddol ar deuluoedd Cymru.

Wrth gyhoeddi ei Ddatganiad Cyllidol ar gyfer y gwanwyn ddiwedd Mawrth, dywedodd y Canghellor, Rishi Sunak, ei fod am 'geisio lleddfu'r costau cynyddol ar aelwydydd y wlad', ac o'r herwydd y byddai'r trothwy yn codi ar gyfer y swm y mae pobl yn ei ennill cyn talu Yswiriant Gwladol ac y byddai'r dreth ar danwydd yn cael ei thorri 5c y litr am 12 mis. Mae hyn mewn ymateb i'r gofid cynyddol gan bobl am y cynnydd sylweddol mewn costau byw yn sgil y ffaith fod pris ynni, tanwydd a bwyd yn codi ar gyfradd lawer iawn uwch na'r cynnydd mewn cyflogau. Bu cryn feirniadaeth gan y gwrthbleidiau a sylwebyddion gwleidyddol nad oedd hynny'n mynd yn ddigon pell, yn wyneb y cynnydd digynsail mewn prisiau tanwydd ac ynni ar hyn o bryd. Mae nifer o elusennau dyled a thlodi hefyd wedi mynegi consŷrn gwirioneddol y gall miliynau o bobl fynd i drafferthion, ac y bydd y mwyaf bregus mewn cymdeithas yn dioddef. Mae llawer eisoes wedi darogan y bydd yn rhaid iddynt ddewis rhwng bwydo'r teulu neu wresogi'r aelwyd, ac mai plant a'r henoed fydd yn dioddef fwyaf.

Ar Ebrill 1af eleni gwelwyd cynnydd sylweddol mewn prisiau ynni – rhwng 40% a 55%, gyda'r posibilrwydd cryf o gynydd cyffelyb eto yn yr hydref. Mae hyn yn ychwanegol at sawl cynnydd arall dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda phrisiau trydan, nwy ac olew wedi cynyddu 60–80% yn barod. Mae pris tanwydd car hefyd wedi codi 45% yn y 12 mis diwethaf, a'r bygythiad o brinder olew oherwydd y rhyfel yn Wcráin yn dwysáu'r broblem honno. Gyda chostau cwmnïau sy'n cynhyrchu nwyddau hefyd yn codi, fe welwyd cynnydd uwch na chwyddiant mewn prisiau bwyd ac offer i'r cartref. Ac er bod chwyddiant wedi codi'n sylweddol (6.2% ym Mawrth 2022), nid yw

cyflogau yn gyffredinol wedi dilyn hynny (cyfartaledd y cynnydd yn 2022 yn 2.4%), ac felly mae'r pwysau ar aelwydydd yn heriol i lawer ar hyn o bryd.

Daeth rhybudd eisoes gan Dr Steffan Evans, pennaeth polisi Sefydliad Bevan, a ddywedodd, 'Mae'r cynnydd mewn chwyddiant i'r lefel uchaf ers 40 mlynedd yn debygol o arwain at y cwmp mwyaf mewn safonau byw ers cyfnod diwedd yr Ail Ryfel Byd. Y cyfuniad o'r costau yma i gyd yn cynyddu sy'n rhoi pwysau ar deuluoedd. Rydyn ni'n amau y bydd yna gynydd yn nifer y bobol fydd yn gorfod lleihau eu defnydd o'r eitemau hanfodol. Ond mae yna ofid hefyd fod pobl yn mynd i ddyled efo rhai o'r costau uwch yma, fydd yn rhoi pwysau pellach ar deuluoedd adeg yr hydref nesa, wrth gofio y bydd costau'n cynyddu'n fwy eto bryd hynny.'

Ydy, mae'r gwanwyn ar ddod, a bydd llai o angen am wres ac ynni, gobeithio, ond fe ddaw'r gaeaf a'i dywydd garw eto, gyda chynnydd sylweddol arall yn cael ei ddarogan bryd hynny, all fod yn heriol i filiynau o aelwydydd. Mae heriau hefyd yn wynebu'r sector amaeth a chefn gwlad yn sgil y codiadau hyn. Yn ôl Aled Jones o NFU Cymru, 'Mae costau gwrtaith wedi dyblu mewn blwyddyn a phris bwyd anifeiliaid wedi cynyddu 60%, tra mae'r digwyddiadau yn Wcráin bellach yn cyfyngu ar y cyflenwad o gynhwysion crai. Mae'r ansicrwydd yn cael effaith arnom ni i gyd, ac rydym yn ymwybodol fod rhai ffermwyr yn brwydro i dalu'r biliau.'

### Ein hymateb ni

Fel Cristnogion, mae galwad cryf arnom i sefyll gyda'r bregus a'r gwan, ac mae gennym draddodiad cryf o wneud hynny. Mewn cyfnodau o galedi, gwelwn gymunedau'n closio at ei gilydd, ac yn aml mae'r eglwys fel 'hyb' yn y canol – yn cynnal banciau bwyd, yn cludo prydau bwyd i aelwydydd, ac yn cynnig cefnogaeth ymarferol ar gyllidebu a rheoli dyled. Mae'r eglwys hefyd yn llais cydwybod sy'n gallu herio llywodraethau i greu gwell

cymdeithas ar gyfer pawb. Gall pob un ohonom wneud gwahaniaeth. Gallwn i gyd ymdrechu i fod yn gymdogion da – gan geisio bod yn effro i sefyllfaoedd o dlodi yn ein cymunedau. Yn aml, bydd yr oedranus yn ceisio byw heb wres neu golli prydau bwyd, a phlant yn dioddef oherwydd diffyg maeth a dillad addas. Mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom i fod yn effro i sefyllfa ein cymdogion yn lleol, a gall gweithred gudd o garedigrwydd wneud gwahaniaeth mawr yn aml.

Mae ambell eglwys wedi mentro agor drws y festri yn ystod y dydd, er mwyn cynnig lle cynnes, paned a chawl maethlon, ac osgoi cael pobl mewn unigrwydd ac oerfel yn eu cartrefi. Gallwn hefyd lobio ein Haelod Seneddol lleol a'r Aelod o Senedd Cymru i frwydro dros gynhaliaeth ddigonol i'r rhai sy'n brwydro gyda thlodi, gan roi pwysau i godi gwerth credyd teuluol a buddiannau angenrheidiol. Gallwn gyfrannu at fanciau bwyd drwy ollwng nwyddau wrth siopa yn yr archfarchnad neu gyfrannu i elusen fel Shelter, sy'n cynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n colli eu cartrefi. Mae'r elusen yn



rhagrybuddio y gall miloedd golli eu cartrefi yn y chwe mis nesaf wrth i bobl fethu talu rhenti a biliau gwres, gan roi mwy o bwysau ar yr elusen bwysig hon. Ewch i [www.sheltercymru.org.uk](http://www.sheltercymru.org.uk) am fwy o wybodaeth. Os oes gennym dai capeli ar osod, mae llawer y gellir ei wneud i ofalu bod y cartref hwnnw mor glyd ac ynni-ffeithlon ag y

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

## Mae'n wanwyn ... ond mae'r gaeaf yn dod

(parhad o dudalen 1)

gall fod, a chofiwch y gall tenantiaid yn aml hawlio grantiau i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi yn rhad ac am ddim.

Gyda'r cynnydd mewn costau, mae disgwyl y bydd llawer yn mynd i ddyled dros y misoedd nesaf. Elusen flaengar sy'n arwain ar reoli dyled yw CAP (Christians Against Poverty), ac maent yno i gynnig cefnogaeth ac arweiniad. Mae llawer o wybodaeth a chyngor ar gael ar eu gwefan: [www.capuk.org](http://www.capuk.org)



Un cynllun arbennig dan nawdd CAP yw Hope Pantry, ac yn ddiweddar ymwelodd Gethin Rhys o Cytûn â'r prosiect ym Merthyr Tudful, sy'n rhan o gynllun Eich Pantri Lleol. Mae drws disylw ar ymyl capel trawiadol Hope yng nghanol Merthyr yn arwain at y siop groser leol. Ond nid siop gyffredin mohoni o gwbl. Mae Hope Pantry yn cynnig gostyngiadau hael iawn i aelodau'r cynllun, â'r stoc yn y siop yn cael ei roi gan elusen Fareshare. Yn ychwanegol at hyn, gall aelodau godi ffrwythau, llysiau a bara ffres sydd angen eu defnyddio'n fuan yn rhad ac am ddim. Mae'r Pantri felly'n gwneud cyfraniad mawr at fynd i'r afael â gwastraff bwyd a'i gost amgylcheddol yn ogystal â threchu tlodi. Ceir mwy o fanylion am y cynllun ym mwletin Cytûn drwy ymweld â'r wefan: [www.cytun.co.uk](http://www.cytun.co.uk).

Bydd llawer o eglwysi yn gysylltiedig â banciau bwyd a phrosiectau sy'n cynnig cefnogaeth ymarferol i bobl mewn tlodi. Mae'r [Trussell Trust](http://www.trusselltrust.org), sy'n rhedeg llawer o'r banciau bwyd, newydd ddechrau ymgyrch i geisio dileu'r angen am fanciau bwyd. Cyhoeddwyd adroddiad ganddynt yn dwyn y teitl 'State of Hunger', sy'n gosod her i geisio dileu tlodi bwyd yn ein gwlad. Mae'r adroddiad yn datgelu'r tlodi eithafol a wynebir gan bobl mewn banciau bwyd, gyda dim ond £248 y mis ar gyfartaledd i geisio byw. Mae angen i'r arian hwnnw dalu

am gostau ynni a dŵr, treth y cyngor, bwyd a hanfodion eraill. Byrdwn yr adroddiad yw fod hynny'n annerbyniol, a'i bod yn bryd newid – a dim ond wrth i ni godi ein lleisiau gyda'n gilydd i alw am roi terfyn ar yr angen am fanciau bwyd y bydd hynny'n bosibl.



Mewn datganiad, meddant, 'Mae ein hymchwil yn dangos bod angen i un o bob chwech o bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ymweld â banc bwyd o leiaf unwaith y mis, ac mae bron i 2 filiwn o bobl yn mynd heb fwyd ar hyn o bryd. Dyma wir effaith y cynnydd ym mhreis bwyd i bobl ar yr incwm isaf – pobl sydd eisoes yn wynebu penderfyniadau amhosibl fel gwresogi neu fwyta, gyda llawer yn gorfod ysgwyddo dyled dim ond i oroesi.

'Yn Natganiad y Gwanwyn, mae'r Canghellor wedi gwrthod galwadau i gefnogi pobl sydd eisoes yn wynebu penderfyniadau amhosibl. Nid yw cadw budd-daliadau ar gyfradd mor beryglus o isel yn rhoi unrhyw sicrwydd i bobl sy'n cael trafferth i fforddio'r hanfodion, a bydd hyn yn gorfodi llawer mwy o bobl i droi at fanciau bwyd. Mae angen gweithredu ar unwaith i gryfhau ein system nawdd cymdeithasol.' Ewch i [www.trusselltrust.org](http://www.trusselltrust.org) i gael mwy o wybodaeth.

Mae'r elusen [Splice](http://www.splice.org) yn gweithio gyda theuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Maent yn poeni fod chwyddiant yn gorfodi teuluoedd i wneud dewisiadau amhosib. Meddai'r cydlynnydd Tracey Morgan, 'Mae prisiau'n cynyddu, ac mae ein teuluoedd yn gweld hynny. Hyd yn oed y teuluoedd sy'n gweithio. Maen nhw'n gorfod gwneud y dewis – p'un a ydyn nhw'n cynhesu'r tŷ neu'n bwydo eu plant.'

### Tlodi Digidol

Yn ychwanegol at dlodi bwyd a thanwydd, cyfeirir hefyd at broblem gynyddol tlodi 'digidol', neu dlodi drwy ddiffyg cyswllt â'r we. Yn ddiweddar, bûm mewn cyfarfod rhithiol ar ran Cytûn, o dan nawdd Llywodraeth Cymru, yn trafod broblem argyfwng tlodi digidol. Cadeiriwyd

y cyfarfod gan Jane Hutt AS, ar ran Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio datblygu strategaeth i ofalu bod pob cartref yn gallu cael mynediad i'r we, er mwyn rhoi cyfleoedd cyfartal i bawb. Mewn oes pan mai dim ond ar y we y gellir gwneud cymaint o bethau, mae methu cael mynediad ato'n dod â'i siâr o heriau ac anawsterau. Mae llawer o gartrefi heb fodd o dalu am gysylltiad â'r we, a nifer na fedrant fforddio gliniaduron a chyfrifiadur cyflym.

Cafwyd adroddiadau am blant yn methu yn eu haddysg oherwydd nad oedd cyfrifiadur ar yr aelwyd, neu efallai ddim ond un cyfrifiadur rhwng mam a dad a phedwar o blant – a phawb yn gorfod cwffio am amser i'w ddefnyddio. Bellach, mae gwaith cartref i blant yn dibynnu ar ymchwilio ar y we, a chlywyd am blant yn gorfod gwneud eu gwaith ar ffôn symudol araf, a hynny yn ei dro yn amharu ar eu haddysg. Ac mewn byd lle mae plant yn cymdeithasu â'i gilydd drwy apiau fel Instagram mae'r rhai nad ydynt yn berchen ar ffonau clyfar yn cael eu heithrio o'r cylch ffrindiau hwnnw.

Yn yr un modd, i oedolion, mae'r gallu i brynu ar y we er mwyn cael y fargen orau, neu dalu biliau drwy ddebyd uniongyrchol er mwyn cael y fargen orau, yn heriol i gynifer. O'r herwydd, mae'r rhai tlotaf mewn cymdeithas yn aml yn gorfod talu prisiau uwch, yn methu cofrestru ar gyfer buddiannau a chefnogaeth sydd i'w cael ar y we. Gobaith y Llywodraeth yw creu partneriaethau i roi cyfle a mynediad i'r we i gynifer â phosib. Bydd rhai eglwysi'n rhedeg clybiau gwaith cartref ar ôl ysgol, lle mae plant yn cael diod a bisged, a chyfle i ddefnyddio gliniadur i wneud eu gwaith cartref. Mewn cyfnod lle mae llawer o gapeli wedi gosod y we ar gyfer Zoom, tybed oes 'na gyfle yma i fod yn genhadol ac ymestynol? Yn aml iawn, mae modd cael gliniaduron am ddim i ddiben cymdeithasol.

Wrth edrych tua'r dyfodol, gobeithiwn am wanwyn tyner, am ddiwedd ar ryfel yn Wcráin, am lai o bwysau a defnydd ar ynni ffosil, ac y gwelwn yr argyfwng tanwydd ac ynni yn lliniaru. Ond y realiti yw y daw'r gaeaf yn ei dymor, ac mai cynyddu fydd y prisiau, ac mai ymdopi a delio â phrisiau uwch fydd raid, gan geisio bod mor ofalus a darbodus ag y medrwn. Bydd hyn hefyd yn helpu gyda'r argyfwng newid hinsawdd yn y pen draw.

Rhown y gair olaf i Paul, a'i anogaeth i'r Cristnogion yng Ngalatia: 'Helpwch eich gilydd pan mae pethau'n galed – dyna mae "cyfraith" y Meseia yn ei ofyn. Dylai pawb yn syml wneud beth allan nhw.'

Galatiaid 6: 2,4, [bibl.net](http://www.bibl.net)

## ‘Tra bydd dynoliaeth fe fydd amaethu’

Ar drothwy tymor y gwanwyn ac adeg hau, fe glywn yma gan Aled Jones, Henbont, Caernarfon, Llywydd newydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru, am yr heriau sydd i fyd amaeth yn y cyfnod hwn a'r ffydd sy'n gynhaliadaeth iddo.

**Aled, fe hoffem ni yn gyntaf dy longyfarch a dymuno bendith arnat eleni wrth iti ymgymryd â llywyddiaeth Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru. Fedri di rannu ychydig am dy gefndir a dy gyswllt efo byd amaeth efo ni?**

Mae 'ngwreiddiau mewn amaeth yn mynd 'nôl dros wyth cenhedlaeth ac yn ôl i Adda hefyd o ran natur. Fe'm ganwyd yng Nghwm Prysor, Trawsfynydd, cyn i'm tad symud i ffermio yng Nghaernarfon ym 1963. Mi es i astudio amaeth ym Mhrifysgol Reading cyn dychwelyd adra ym 1981. Rwyf wedi bod â diddordeb mewn gwleidyddiaeth amaeth ers blynyddoedd ac wedi gwasanaethu mewn gwahanol swyddi o fewn yr undeb.

**Beth ydy'r heriau mawr mae amaethwyr yn eu hwynebu heddiw, yn dy dyb di?**


Mae heriau dirifedi ar hyn o bryd wrth wynebu gadael yr Undeb Ewropeaidd, newid hinsawdd a chodiadau mawr mewn costau rhedeg ffermydd. Oherwydd natur gwaith ffermwr o weithio oriau hir, weithiau mewn tywydd gwael, yn aml mewn unigrwydd, delio gyda straen gwaith papur di-dor, mae iechyd meddwl ffermwyr wedi diodde'n enbyd, sy wedi arwain at sawl achos trist. Nid yw'r heriau yma yn ddim o'i gymharu â beth sydd wedi dod i'n hwynebu oll yn sgil y rhyfel yn Wcráin. Mae clywed adroddiadau o'r rhyfel, y lluniau echrydus o ddiodeffaint a gormes yn peri tristwch mawr imi fel pawb arall. Yn fy ngwaith, mi wn am bwysigrwydd Wcráin fel gwlad ffrwythlon, gynhyrchiol, yn bwydo deg gwaith mwy na'i phoblogaeth ei hun. Mae bron i 30% o'r gwenith ar farchnadoedd y byd yn dod oddi yno, ynghyd ag india-corn a blodyn yr haul. Mae gennyf ofn mawr y bydd mwy yn marw o newyn yn sgil y rhyfel nag a fydd yn uniongyrchol.

**Beth wyt ti'n gobeithio'i gyflawni yn dy rôl eleni gyda'r NFU yng Nghymru?**

Fy ngwaith yw cynrychioli buddiannau'r aelodau ar sawl lefel, megis y Llywodraeth, archfarchnadoedd a'r cyhoedd yn gyffredinol. Ers blynyddoedd lawer, yn bell cyn bod sôn am ryfel, dwi wedi bod fel proffwyd unig ar brydiau yn ceisio darbwyllo gwleidyddion a'r rhai sy'n cynllunio polisiâu o bwysigrwydd cynnal ein gallu i ddarparu bwyd. Mae'r twf ym mhoblogaeth y byd yn arswydus a'r adnoddau naturiol sydd ar gael i'w cynnal yn lleihau. Tafla effeithiau newid hinsawdd hyd yn oed fwy o rwystrau arnom oll wrth inni lyncu carbon o'r ddaear. Os byddaf wedi cael ond ychydig o ddylanwad ar bolisiâu, caf orffwys yn dawelach ar ddiwedd y daith.

**Rwyt ti wedi tystio i dy ffydd ar y cyfryngau ac i'r gynhaliadaeth a gefaist gan yr Arglwydd drwy adegau anodd. Sut y daethost ti i bwysu ar yr Arglwydd i ddechrau?**

Cefais fy magu ar aelwyd oedd yn gefnogol i waith y chapel. Er hynny oll, wyddwn ddim beth a olygai i fod yn Gristion. Arferiad oedd imi heb ryw lawer o effaith oddi mewn. Roedd y ddau ffrind cyntaf wnes i ar ôl cyrraedd y coleg yn astudio'r un cwrs â mi,



ond yn fwy na hynny roeddynt yn Gristnogion o argyhoeddiad, yn meddu ar ffydd yn eu gwaredwr, Iesu Grist. Diolch i Dduw am eu rhoddi'n dystion ffyddlon ac am i'r Ysbryd Glân ddangos angen f'enaid.

**Oes yna un enghraifft neu adeg o gwbl y teimlaist ti'r Arglwydd yn arbennig o agos atat?**

Mae angen dyddiol am ofal Duw. Angen dyddiol am faddeuant a gras. Angen dyddiol am nerth a doethineb. Cofiaf fod mewn cyfarfod yn delio gyda phethau digon cymhleth a dyrys, gan deimlo na allwn roi mewnbyn effeithiol. Gweddiâis yn dawel ar i Dduw roi imi ddeall a doethineb, ac yn wir mi ges i oleuni i allu dweud rhai pethau wnaeth ddod â'r holl drafod i ben ac fe gafwyd cytundeb. Nid ohonof fi y daeth y doethineb.

**Pa mor ganolog ydy'r syniad o ofalu am greadigaeth Duw i ti o ddydd i ddydd?**

Braint yw cael bod yn ffarmwr a gweld gogoniant a threfn Duw yn y greadigaeth. Weithiau mae'n rhaid sefyll yn llonydd a thawel i gael gwerthfawrogi. Yn anffodus, mae bwrlwm bywyd yn peri inni golli golwg ar rai o'r perllau. Mae gweithio gyda natur yn aml yn dangos effaith pechod yn y greadigaeth. Defnyddia'r Iesu ddarluniau o fyd natur yn aml yn ei ddamhegion: cofiwn am y drain yn tagu'r egin yn nameg yr heuwr. Yn ddi-os mae comisiwn wedi'i roddi inni yn y Beibl i fod yn stiwardiaid ffyddlon o beth mae Duw wedi'i roddi inni.

**Sut fyddi di'n ymateb pan fyddi'n clywed beirniadaeth ar ddulliau amaethu heddiw? Ydy'r feirniadaeth yn un ddilys?**

Mi wn fod rhai yn gallu bod yn feirniadol ac, yn wir, fe all fod 'na sail i rai pethau. Yn wir, tydym ddim yn byw mewn byd perffaith ac mi fyswn yn herio unrhyw un i gynnig ateb perffaith. Mae gan bawb ei safbwynt yn ôl ei ddeall ei hun, ond tydi hynny ddim wastad yn gyflawn. Y gwir yw ein bod oll angen troi at y Gwaredwr Iesu Grist.

**Mae yna alwadau lawer am dy amser a'th wasanaeth. Oes gen ti air o anogaeth neu gyngor i eraill wrth wasanaethu yn eu meysydd eu hunain?**

Dim ond i fod yn ffyddlon yn yr hyn mae Duw wedi'i roi iddynt, dim mwy, dim llai. Mae rhai yn gwasanaethu trwy ymweld a dangos cariad tuag at rai anghenus, eraill yn defnyddio eu doniau mewn meysydd arbenigol megis meddyginiaeth, ond yr un fydd eu gwobr yn y nefoedd os ydynt yn caru Duw.

## Sylw o'r Seidin Heb y gwir?

Beth yw'r pwynt byw heb y gwir  
Byw dan gysgod c'lwyddau ...?  
Tydy'r diafol ddim yn cadw ei was yn hir,  
Tydy'r diafol ddim yn mynd i ddweud y  
gwir.

Dyma'r geiriau yn un o ganeuon poblogaidd Dyfrig Evans sy'n dwyn y teitl 'Gwas y Diafol'. Mae'r gân wedi bod yn troelli yn fy meddwl ers dyddiau bellach yn wyneb yr hyn sydd yn digwydd i un wlad ar gyrion Ewrop, oherwydd gormes gwlad arall.

Deffrois yn chwys laddar un noson yn ddiweddar a chanfod fy mod wedi bod yn breuddwydio am gyflafan Wcráin. Yn fy mreuddwyd credais imi weld fy merch yng nghyfraith a'm dau wŷr bach yn sefyll ar y ffin rhwng Wcráin a Gwlad Pwyl. Yno, wrth geisio ffoi, yr oeddynt yn gorfod wynebu'r ing o ffarwelio â'm mab oherwydd bod yn rhaid iddo yntau aros ar ôl i ymuno yn y frwydr i amdiffyn ei wlad. Fedrwch chi ddim ond dychmygu'r angst, yr ing, y rhwyg emosiynol a'r pellhau gorfodol a'r syniad na fyddai pethau byth yrun fath wedi hyn. Ond dyna realiti pethau ar lawr gwlad yn Wcráin. A dim ond wrth bwyso a mesur y sefyllfa enbyd yng nghyd-destun fy nheulu fy hun y gallwn i lawn amgyffred beth sydd yn digwydd i ddyfodol teuluoedd a phobloedd yn Wcráin heddiw.

Gofynnwyd imi yn ddiweddar oeddwn i'n credu bod yr Anghrist yn fyw yn ein mysg y dyddiau hyn. Ac mi atebais yn gadarnhaol, gan ddweud ei fod yn byw tua Rwsia erbyn hyn, a thristwch y sefyllfa yw fod yr Eglwys Uniongred yn cefnogi ac yn hybu gweithredoedd gorffwyll arlywydd y wlad honno.

Felly, gyda golwg ar y dinistr a'r gyflafan sydd ar droed ar gyrion Ewrop y dyddiau hyn rwy'n edrych ar bethau ar hyn o bryd. Nid wyf yn gwybod a fydd yna gadoediad wedi ei drefnu rhwng Rwsia Fawr ac Wcráin. Fedrwn ni ond gweddïo a gobeithio y caiff y rhai sydd wedi eu dal ym merw brwydro dieflig gweision



Llun: Y Ffarn, gan Coppo di Marcovaldo, Nenfwd Mosaic, Beddydfan San Giovanni  
<https://tinyurl.com/bd5hfdvb>

y diafol weld gwawr newydd a dydd newydd.

Un o ddywediadau mwyaf heriol Archesgob Desmond Tutu oedd hyn: "If you are neutral in situations of injustice, you have chosen the side of the oppressor. If an elephant has its foot on the tail of a mouse, and you say that you are neutral, the mouse will not appreciate your neutrality."

Fedr neb eistedd ar y ffens yn wyneb unrhyw gyflafan, gan fod hynny hefyd yn awgrymu eich bod yn cefnogi'r gormeswr mewn sefyllfa o ryfel. Rwy'n edmygu ac yn parchu'r rhai sy'n gwneud safiad ar y naill ochr neu'r llall, ac eto yn dal yn teimlo'n ddiymadferth yn wyneb y cyfan. Beth amdanoch chi? Am ba hyd y gellir caniatáu i 'fwystfilod rheibus / dorri'r egin mân i lawr', boed mewn theatr, ysgol neu gonfoi sy'n ceisio dianc o'r gyflafan?

Yn fy mhryder am ddyfodol y byd a dyfodol fy wyrion bach ac wrth chwilio'n ddyfal am rywbeth i angori fy ngobaith, fe gofiais am eiriau Mahatma Gandhi, pan ddywedodd: 'When I despair, I remember that all through history, the way of truth and love have always won. There have been tyrants and murderers, and for a time, they can seem invincible, but in the end, they fall. Think of it – always!'

Wrth gofio geiriau Gandhi, gadewch ini ddewis i barhau i gefnogi pob ymgyrch ac ymdrech posib i godi arian ar gyfer [DEC](#) a llu o fudiadau eraill er mwyn ceisio estyn cymorth dyngarol i'r rhai sydd wedi eu gadael heb ddim yn y byd o ganlyniad i ryfel yn eu gwlad. Mae daioni wastad yn drech na drygioni, felly gweddïwn yn fyw taer:

Gwasgar di y rhai sy'n caru  
rhyfel a'i erchylltra ef,  
rhag ei ddirfawr ddychryniadau  
dyro waredigaeth gref:  
tro'r cleddyfau  
oll yn sychau er dy glod.

Yna, gellir gobeithio na fydd y diafol yn cadw ei was yn rhyhiracydaw tangnefedd i deyrnasu a chyfle i ailadeiladu dyfodol newydd i bobl Wcráin.

*Jim Clarke*

Cofiwch fod *Cenn@d* yn croesawu ymatebion gan ein darllenwyr. Ac fe hoffem fedru cynnwys eich sylwadau a'ch ymatebion i'r hyn sy'n ymddangos yn ein rhifynnau. Mae sylw Jim Clarke am deimlo'n ddiymadferth yng nghanol y newyddion am ryfel Wcráin yn cael ei rannu gennym i gyd, mae'n siŵr. Ond beth yn eich barn chi ddylai gwledydd y Gorllewin ei wneud nesaf i arbed bywydau ac atal y rhyfel? Gadewch i ni wybod beth yw eich barn!

*Gol.*

## Dydd Gweddi'r Byd yn Llundain

Ar 4 Mawrth, roedd eglwysi ledled y byd yn cynnal gwasanaethau Dydd Gweddi'r Byd. Mae eleni yn flwyddyn arwyddocaol gan mai'r tro diwethaf i'r gwasanaeth hwn gael ei baratoi gan ferched Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon oedd 1945! Dechreuodd y gwaith paratoi ar gyfer y gwasanaeth yn 2018 ar y thema o Lyfr Jeremeia: 'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer'. Yn wir, fe ddaeth y thema'n broffwydol o ystyried yr amgylchiadau



Mr Bryn Lloyd yn cyfarch y chwirydd yn Sutton ar ôl y gwasanaeth

presennol yr ydym yn byw drwyddynt a chafwyd llawer o sylwadau ei fod yn wasanaeth teimladwy a phryfoclyd.

'A beth am yr Alban?' mae llawer o bobl wedi gofyn. Wel, mae ganddyn nhw eu Diwrnod Gweddi Byd eu hunain, a ddechreuodd yn 1930 cyn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r pwyllgorau yn yr Alban, Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn cydweithio'n agos iawn. Yn wir, trefnodd pwyllgor yr Alban ddeg diwrnod o weddi yn arwain at y Dydd Gweddi.

Yn Llundain cawsom rediad prawf o'r gwasanaeth eleni yng Nghapel Clapham Junction yn y bore a Chapel Sutton yn y prynhawn. Rydym mor ddiolchgar o gael y gwasanaeth wedi'i gyfieithu'n fedrus i'r Gymraeg gan Beryl Jones. Yn ddiweddaraf, fe gawsom gais i gael y fersiwn Gymraeg gan ein cyfeillion yng Nghanada.



Gwasanaeth bendithiol Chwirydd Clapham

Symudodd y gwasanaeth o dywyllwch i oleuni, o fannau negyddol i'r gobaiith cadarnhaol a ganfyddwn yn Nuw ac yng nghynlluniau Duw ar ein cyfer. Roedd y canhwylau'n cynrychioli golau'n disgleirio yn y tywyllwch a'r hadau a ddosbarthwyd gennym yn symbol o obaith Duw. Yr hedyn gobaiith hwn sydd ei angen arnom heddiw.

## Cystadleuaeth Cyfansoddi Emyn-dôn

Fel rhan o ddatliadau *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* yn 60 oed, rydyn ni am gomisiynu emyn newydd i Gymru.

Llongyfarchiadau i Eirian Dafydd, awdur y geiriau buddugol, gyda 'Gweddi'r Pererin'. Yn dilyn cyhoeddi enillydd geiriau'r emyn, rydym nawr yn eich croesawu chi i gyfansoddi emyn-dôn ar gyfer yr emyn. Bydd gwobr o £200 i'r cyfansoddwr buddugol.

[Telerau ac Amodau llawn y gystadleuaeth](#)

Dylid anfon y gerddoriaeth naill ai drwy'r post mewn amlen at:  
**Cystadleuaeth Cyfansoddi Emyn**  
**Swyddfa Dechrau Canu Dechrau Canmol**  
**Rondo Media**  
**Llawr 9, Southgate House**  
**Wood Street**  
**Caerdydd**  
**CF10 1GR**

Neu drwy e-bost at: [emynigymru@rondomedia.co.uk](mailto:emynigymru@rondomedia.co.uk)

Rhaid i bob cystadleuydd gynnwys y manylion canlynol gyda'r cais:

- Enw llawn
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad a chyfeiriad e-bost y cystadleuydd.

Dyddiad Cau: 29 Ebrill 2022

## 10:03:22 Pob Papur Newydd

Ddoe, pan oedd y sêr yn siarad cariad cywir, papur tsips yfory fyddai papur newydd heddiw ... Nid felly yr awr hon, a phob papur dyddiol ond un yn cario llun o farbareiddiwch ein dyddiau – Yfory? Pwy wŷr pa le y byddant ...

y merched beichiog, eu dillad carpiog ar fin esgor eu babi – i be? I hyn, byd mewn bagiau plastig a'r ysbyty mamolaeth rhacs megis sgerbwd llygatrwith?

Eu plant wrth eu cwt yn cydio yn eu doli glwt – dagrau fel glud, a chri a gwae ar y cowt blwng ... Nid ymgyrch hyn – anwareiddiwch ydyw

a ninnau, ymofynnwn yn fanwl am y Mab, pa le y mae? A oes golau ar yr ysgeler? Ai rhith yr Ysgrythur? Ac yn gwybod o'r gorau mai o gylch bwrdd ac nid ymgyrch bom y digwydd gwaredigaeth!

*Norman Closs Parry*

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

Sul, 10 Ebrill, am 7:30yh (ailddarlledir am 11:30yb y Sul canlynol)

Bydd rhaglen yr wythnos hon yn nodi Sul y Blodau. Mi fydd Nia yn Nhyddewi yn cwrdd â'r cyn-egob, y Gwir Barchedig Wyn Evans, a chawn glywed cyfweiliad Cymraeg cyntaf y Parch Kate Bottley, un o gyflwynwyr y rhaglen *Songs of Praise*.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*

Sul, 10 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp

Cyfres ar amrywiol themâu gydag R. Alun Evans. Emynu am Sul y Blodau fydd yn cael sylw ganddo yn rhaglen yr wythnos hon.

*Oedfa Radio Cymru*

Sul, 10 Ebrill, am 12:00yp

Gwasanaeth ar Sul y Blodau dan ofal Ieuan Wyn Jones, Llangefni.

# Myfyrdod y Grawys

## Cyfes o chwe astudiaeth gan Gyngor yr Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)

### Grawys 6

Darllen: Eseia 43:19–21



Llun gwreiddiol: frontriver/flickr

Edrychwch, rwyf yn gwneud peth newydd; y mae'n tarddu yn awr; oni allwch ei adnabod? Yn wir, rwy'n gwneud ffordd yn yr anialwch, ac afonydd yn y diffeithwch. Bydd anifeiliaid gwylltion yn fy mawrygu, y bleiddiaid a'r estrys, am imi roi dŵr yn yr anialwch ac afonydd yn y diffeithwch, er mwyn rhoi dŵr i'm pobl, f'etholedig, sef y bobl a luniais i mi fy hun, iddynt fynegi fy nghlod.

### 1 Rhywbeth i'w drafod gyda'n gilydd

\*Yn y darlenniad hwn o Eseia, deawn i ddeall fod anifeiliaid ac adar yn ddiolchgar am y dŵr mae Duw yn ei roi iddynt yn y diffeithwch sych a bod Duw yn rhoi'r hyn mae arnom ninnau ei angen hefyd. Weithiau, byddwn yn drysu rhwng yr hyn mae arnom ei angen a'r hyn rydym ei eisiau. Pa fath o 'ddŵr' ysbrydol fydd arnom ei angen heddiw er mwyn tyfu mewn ffyddlondeb a chanfod pwrpas Duw? Am ba fath o 'ddŵr' ysbrydol y mae pobl yn chwilio yn eu hymchwil ysbrydol y tu allan i'r ffydd Gristnogol?

\*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae Duw yn wir yn gwneud rhywbeth newydd pan ymddangosodd ffynnon o ddŵr ar safle ei gwellhad, sydd yn dal yno i'w gweld heddiw. Sut y gall y bobl sy'n ymweld a'r ffynnon ddarganfod mwy am gariad a thrugaredd rhyfeddol Duw a sut y gallwn eu helpu i wneud hynny?

### 2 Rhywbeth i adfyfrio arno

\*Yn eich barn chi, beth yw ystyr 'y bobl a luniais i mi fy hun'? Yn eich bywyd Cristnogol, a ydych yn ymwybodol o fod wedi cael eich dewis, eich porthi a'ch arwain gan Dduw? Ydych chi erioed wedi dod ar draws 'diffeithwch' yn eich bywyd ysbrydol, neu wedi cael cyfnodau trafferthus? Ble mae dod o hyd i help mewn adegau o sychder ysbrydol, a phryd y gwnaethoch chi ddarganfod Duw yn gwneud 'peth newydd' yn eich bywyd?

\*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae Duw yn gwneud rhywbeth newydd rhyfeddol wrth ei hatgyfodi a rhoi'n ôl iddi ei bywyd o ymrwymiad i'r Iesu y mae hi am ei ddilyn. Daw dŵr yn symbol pwysig o wellhad a gobaith. Sut gall y stori hon ein helpu i siarad ag eraill am wellhad a gobaith a'r pethau newydd, rhyfeddol y gall Duw eu gwneud ym mywydau pobl?

### 3 Rhywbeth i'w wneud

\*Mewn pob math o ffyrdd, mae pobl yn y gymdeithas fodern yn sychedu am ddŵr yn y diffeithwch. Ond, yn aml, does ganddynt mo'r geiriau i esbonio'n union beth maent ei eisiau neu ei angen, neu eu bod yn poeni am siarad am eu profiad o Dduw rhag ofn i bobl chwerthin am eu pennau. Yn eich bywyd Cristnogol, neu yn eich eglwys, casglwch rai pethau i sbarduno sgwrs fyddai'n caniatáu i bobl rannu eu stori neu holi cwestiynau.

\*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae gwyrth yn digwydd, a chaiff ei chodi o farw'n fyw, a daw ffynnon newydd o ddŵr i'r amlwg. Mae gan bobl y tu allan i'r eglwys yn aml gryn ddi-ddordeb mewn hanesion am wyrthiau a digwyddiadau rhyfeddol. Ond beth fyddai pobl heddiw yn ei ddisgrifio fel 'gwyrth'? Gwnewch dipyn o ymchwil ac edrych ar lyfrau neu ar-lein am enghreifftiau o wyrthiau cyfoes. Sut gallwn ni fod yn dystion i allu Duw trwy'r Ysbryd Glân i siarad â phobl am wyrthiau?

### 4 Treiddio'n Ddyfnach

\*Gawsoch chi erioed brofiad o sychder ysbrydol dwfn? Ble fyddwch chi'n troi pan fyddwch angen adfywiad ac ysbrydoliaeth newydd yn eich bywyd ysbrydol a'ch arfer Cristnogol?

\*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae ei marwolaeth a'i hadferiad yn digwydd y tu allan ac y mae'r ffynnon iachusol sy'n ymddangos yn ffenomen naturiol yn yr awyr agored. Pa fath o ddigwyddiadau cyhoeddus y dyddiau hyn sy'n dangos i bobl am beth mae'r ffydd Gristnogol a sut mae modd i ni gyfrannu'n well at rannu ein ffydd yng ngolwg y cyhoedd?

### 5 Gweddi

Arglwydd Iesu Grist,  
Diolchwn i ti am ein tywys at afonydd yn y diffeithwch.  
Diolchwn i ti am roi i ni ddŵr y bywyd i'w yfed,  
a'th fod yn ein llenwi ni, ein pobl, yn unig â phethau da.  
Dysga ni i ddiolch bob dydd am estyn dy law i'n tywys,  
am ffynhonnau iachâd ac ysbrydoliaeth,  
a helpa ni i arwain pawb arall sy'n sychedu am obaith,  
at lif diderfyn dy drugaredd, dy ras a'th gariad.  
Amen.



Y Baddondai yn Ffynnon Gwenffrewi, ger Woolston, Swydd Amwythig cc-by-sa/2.0 - © Des Blenkinsopp - geograph.org.uk/ip/2945521



Y Gwasanaeth Cwnsela ar gyfer  
Clerigion, Gweinidogion yr Efengyl,  
Gweithwyr Cristnogol, a'u Teuluoedd.

## Gweddi Cynnal Pasg 2022

Arglwydd pob gras a thrugaredd,  
plygwn ger dy fron yn wylaidd ac yn ostyngedig,  
wrth ddod i ddathlu'r Pasg.

Nid oes i ni hawl na haeddiant wrth ofyn am dy fendith di.

Cyffeswn ein gwendidau, yr amlwg a'r anamlwg, ac ymbil am dy drugaredd.

Gwyddom ein bod yn llestri pridd, sy'n graciau i gyd.

Eto, gwelaist yn dda i ymddangos ar lwyfan daear ym mherson Iesu  
a'n gwahodd i gredu ynot a'th ddilyn.

Mae'r byd yn dathlu'r cryf a'r cyfoethog, y grymus a'r dysgedig,  
ond gwelaist yn dda i garu'r bregus a'r sawl a chwalwyd, y gwrthodedig a'r diymgeledd.  
Molwn di am i ti ein derbyn fel ag yr ydym, heb gyfrif ein pechodau yn ein herbyn.

Ar ôl y cyfnod hir o gyfyngiadau yn dilyn lledaeniad Covid,  
gwelwn mor fregus yw cymdeithas ym mhob gwlad.

Mae'r cryfaf ohonom yn wan, a'r mwyaf deallus yn ddiiddeall.

Trugarha wrthym.

Mewn byd lle nad oes ateb i drais fel y gwelsom gan Rwsia yn erbyn Wcráin,  
cydnabyddwn ein diffyg deall.

Gweddiwn gyda thrigolion Wcráin heddiw, a thros holl ffoaduriaid byd.

Ymgeledda hwy ac arwain y ddynoliaeth i ddarparu ar eu cyfer.

Boed i gysgod y Groes gyrraedd pob cuddfan a chell,

a chynnig gobaith yr atgyfodiad mewn byd o drais Gwener y Groglith.

Cofiwn yn benodol am y rhai sydd â dibyniaeth yn llesgedd i'w bywyd -  
iachâ hwy, Arglwydd.

Y rhai sy'n crwydro'n ddigyfeiriad mewn bywyd, arwain hwy.

Y rhai sy'n farwaidd eu gwedd ac yn galon galed, er yn brysur yn y byd -  
bywha hwy drwy dy Ysbryd.

Boed i oleuni'r Atgyfodiad lewyrchu yn ein llwydni myglyd ni.

Hyn a ddeisyfwn yn enw Crist y bedd gwag.

**Amen.**

**AM FWY O FANYLION CYSYLLTWCH Â:**

wynfordellisowen@adferiad.org

Rhif ffôn: 07796 464 045

[www.cynnal.wales](http://www.cynnal.wales)

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Arwyddo ac arwyddocâd

Weithiau gall geiriau sy'n ymddangos ar yr olwg gyntaf yn ddiniwed, o'u cofio'n ddiweddarach, fod yn llawn o ystyr ddyfnach. Roedd Mr Putin wedi datgan yn ddigon clir cyn hyn na chredai fod y fath wlad ag Wcráin yn bodoli. Tiriogaeth ydoedd, yn ei feddwl ef, oedd yn ei hanfod yn perthyn i Rwsia. Dim ond yn ddiweddarach y daethpwyd i ddeall oblygiadau creulon ei eiriau!

### Gweddi

Arglwydd Dduw, diolchwn am y fraint o fedru darllen y newyddion da am dy Fab. Diolchwn nad mewn syniadau aruchel sy'n uwch na'n meddyliau ni, nac mewn teimladau annelwig, na chwaith ein mympwyon cyfnewidiol y mae dy adnabod di. Diolchwn fod Iesu Grist wedi ei groeshoelio yn ganol digyfnewid i'r cyfan sy'n arhosol ac yn ddibynadwy. Tyrd atom drachefn drwy dy Ysbryd Glân gan ddwyn i'n cof eiriau gras a bywyd. Amen.

### Cyflwyniad

Deallodd awduron y Testament Newydd fod yr hyn ddiodeffodd Iesu mewn dull rhyfeddol yn gyflawniad o obeithion ac o hanesion o'r Ysgrhythurau Iddewig. Er bod yr hanesion yn llawn o arwyddocâd gwaredigol, dealodd awduron y Testament Newydd fod y gobeithion hynny, bellach, drwy Iesu Grist, i gael eu hadnabod mewn ffordd newydd. Cyflenwid gobeithion yng nghyflawniad dyheadau.

### Emyn 238 'Ymlaen, ymlaen ...'

Nid yw'n gofyn am lawer o ddychymyg i ni 'weld' yr orymdaith 'frenhinol' a'r croeso a dderbyniodd Iesu ar ddechrau wythnos olaf ei rawd ddaearol. A medrwn ddychmygu hefyd pa mor llawen oedd y disgyblion wrth iddynt gael y fraint o fod yn rhan o'i ddyrchafiad gan y torfeydd. Ond nid oedd y disgyblion wedi deall ystyr ei eiriau na'i rybuddion y byddai ymweld â Jerwsalem yn arwain at ei frad, ei sarhad, ei groeshoeliad a'i atgyfodiad. Bellach, dim ond yng ngoleuni'r brad, y croeshoeliad a'r atgyfodiad y medrwn ninnau ddarllen y Gair.

### Darllen Eseia 50:4-9a - 'Ni'm cywilyddir'

Rhodddwyd i 'Was' yr Arglwydd, yr hwn a glywodd ei Air, y ddawn neilltuol o fedru 'cynnal y diffygiol' â'i air. Mewn ufuddod ffydd ni throdd y Gwas oddi ar lwybr

gwaradwydd a phoen. Derbyniodd gernod a fflangell yn ufudd. A gwnaeth hynny gan droi ei wyneb 'fel callestr' tuag at ddiwedd ei rawd. Ond nid derbyn ei dynged yn ddiobaith a wnaeth yr un a orthrymwyd. Gwyddai gymaint â hyn, er bod sarhad a dioddefaint ar ei lwybr, y byddai ef ei hun yn ddieuog o gyhuddiadau ac o gondemniad ei elynion. Byddai'n cael ei gyfiawnhau gan yr Arglwydd ac ni fyddai ei elynion yn medru parhau i sefyll. Gwyddai, er i'w elynion ei sarhau, 'ni'm cywilyddir'. Byddai'r Arglwydd oedd gydag ef yn ei gynnal.

### Darllen Salm 31:9-16 - 'Ti yw fy Nuw'

Wrth graffu eto ar wythnos olaf bywyd Iesu gwelwn, y tro hwn, eiriau'r salm yn cael eu cyflawni ynddo ef. Nodweddid ei yrfa, meddai'r Salmydd, gan gyfyngder, gofid corfforol ac eneidol, tristwch a chwynfan, trallod, dirmyg, gwatwar. Byddai sibrwd gan ei erlidwyr a chynllwynio gan ei elynion i'w ddifa. Byddai hyd yn oed ei gyfeillion yn cael eu harswydo gan y digwyddiadau a'u goresgynnodd, ac yn ffoi a'i adael ar ei ben ei hun.

Ond i'r Arglwydd Iesu, yr hwn a gyflawnodd y gair, nid yr amgylchiadau difaol, gweladwy, oedd y gwir fesur o'r hyn a ddigwyddodd. Drwy'r cyfan roedd yr Arglwydd yn 'trugarhau' wrth iddo 'ymddiried ynot ti, O Arglwydd'. Hyd yn oed yn awr ei ddiodeffaint, yn y gri fwyaf dirdynnol a glywodd y ddynolryw erioed, 'Fy Nuw, fy Nuw, paham ...', cyhoeddwyd ffydd ac ymddiriedaeth y Gwaredwr yn yr Arglwydd. 'Ti yw fy Nuw!' Yr Arglwydd oedd â'r hawl ar ei 'ddyddiau', ac o gyfeiriad yr Arglwydd y deuai gwaredigaeth o law ei elynion a'i erlidwyr. Ar sail ei ymddiriedaeth gwyddai y byddai 'llewyrch wyneb yr Arglwydd' i'w weld hyd yn oed yng nghri'r 'paham y'm gadewaist?' A thrwy weithredoedd achubol yr Arglwydd a'i ffyddlondeb deuai achubiaeth i'r gwas dioddefus ac yn ei dro, drwy ffydd ynddo, gwaredigaeth i'w bobl.

### Darllen Luc 22:14-23 - 'Er eich mwyn'

Yng ngoleuni'r ddau ddarlleniad blaenorol dechreuwn deall o'r newydd arwyddocâd geiriau Iesu wrth iddo sefydlu Swper yr Arglwydd.

Roedd Luc wedi rhybuddio'i ddarllenwyr fod yr hyn oedd i ddigwydd yn Jerwsalem

fel 'Exodus' newydd (9:28-36). Yn ystod dathliad Gwledd y Pasg dewisodd Iesu ddatgelu i'w ddisgyblion arwyddocâd yr hyn oedd ar fin digwydd. Yn wir, roedd y swper hwn yn ddigwyddiad yr oedd ef ei hun wedi 'dyheu' am gael ei rannu â'r disgyblion cyn ei ddiodeffaint.

Yno wrth y bwrdd eisteddodd Iesu a'i ddisgyblion. Dacw Jwdas Iscariot, a fyddai'n ei fradychu. A dacw Pedr, a fyddai'n ei wadu deirgwaith cyn toriad y wawr. Ac yn ei ymyl, wele Ioan, a fyddai'n ei ddilyn o hirbell i'r llys. Byddai pob un arall eisteddodd yn ei gwmni yn ffoi gan adael Iesu ar ei ben ei hun. Gwyddai Iesu hyn. A gwyddai Iesu nad oedd pawb a eisteddodd yn ei gwmni yn berchen ar wir ffydd, a gwyddai mai ansicr ac anwadal oedd ffydd pob un arall. Pan eisteddwn ninnau wrth fwrdd y Cymun, ni fydd pawb yn berchen ar wir ffydd, a bydd yn ein plith fradwyr, gwadwyr, a phobl sy'n llawn o'r un methiannau â ninnau. Pobl fel ni sy'n cael ein hatgoffa wrth fwrdd y Cymun o'r angen i 'gofio' cariad Iesu tuag atom. At unigolion egwan mewn cynulleidfa o bobl ffaeledig daw Iesu gan ddweud am ei ras, 'Cymerwch hwn a rhannwch ef ymhlith eich gilydd.'

Yn ganolog i'r dathliad, fel yn nathliad Gwyl y Pasg, y mae'r bara a dorrrwyd. Ond yn y Cymun ychwanega Iesu elfen wahanol i'r Pasg. Rhwygwyd y bara a'i 'roi er eich mwyn'. Tywalltwyd y gwin yn arwydd o'r 'cyfamod newydd yn fy ngwaed sy'n cael ei dywallt er eich mwyn chi'. Cyfamod, perthynas, ar sail diodeffaint un dros ei bobl, gan Iesu drosom ni. Gan ein bod yn fynych am osod pethau eraill yn y canol, mae'n rhaid i ni gael ein hatgoffa'n gyson i 'gofio' mai Calfaria fryn, yr aberth a roed drosom, y cyfamod a seliwyd gan dywalltiad gwaed Oen diniwed y Pasg, drosom, erom, ac yn ein lle yw canolbwynt tramgwyddus, gogoneddus ein ffydd. Ein braint yw diolch a chofio am y corff a ddryllwyd ar ein rhan.

### Gweddi

Dduw pob gras, trugaredd ac amynedd, rho i ni brofi'r gras, y trugaredd a'r amynedd dwyfol sy'n troi diodeffaint creulon yn fuddugoliaeth, a chreulondeb dieflig yn llwyfan i arddangos dy gariad. Amen.

### Emyn 312 'O nefol addfwyn oen'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [hww@cennad.cymru](mailto:hww@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)